**Rhif:** WG30071

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Cysoni dyddiadau tymhorau ysgol ar gyfer 2018/19

Cynigion dyddiadau tymhorau ar gyfer pob ysgol a gynhelir ar gyfer y flwyddyn ysgol 2018/19

Dyddiad cyhoeddi: 12 Rhagfyr 2016
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn: 20 Mawrth 2017

© Hawlfraint y Goron 2016

# Cysoni dyddiadau tymhorau ysgol ar gyfer 2018/19

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Gofynnwyd i'r awdurdodau lleol anfon eu dyddiadau tymhorau ysgol 2018/19 ar gyfer pob ysgol a gynhelir yn eu hardaloedd penodol i Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn deillio o ofynion Rheoliadau Addysg (Hysbysu am Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) 2014 a ddaeth i rym ar 15 Gorffennaf 2014, ac yn cynnwys dyddiadau tymhorau a bennwyd gan ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig yn ogystal â'r dyddiadau a bennwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer pob ysgol arall a gynhelir yn eu hardaloedd. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi coladu dyddiadau'r tymhorau a anfonwyd o bob cwr o Gymru, ac wedi sylwi nad yw dyddiadau tymhorau wedi'u cysoni eto. O ganlyniad, mae Gweinidogion Cymru am ystyried defnyddio eu pwerau o dan Ddeddf Addysg 2002 i gysoni dyddiadau tymhorau ar gyfer blwyddyn ysgol 2018/19. O dan Ddeddf 2002 a Rheoliadau Addysg (Ymgynghori ar Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) 2014, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ar eu cynigion ar gyfer dyddiadau tymhorau wedi'u cysoni. Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn gofyn am eich barn ar y dyddiadau arfaethedig ar gyfer 2018/19 a'r cyfarwyddyd drafft cysylltiedig a amlinellir isod. |
| **Sut i ymateb** | Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **20 Mawrth 2017** fan hwyraf. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**<br><br>Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru<br>yn www.llyw.cymru/ymgyngoriadau<br>Deddf Addysg (Cymru) 2014<br>www.legislation.gov.uk/anaw/2014/5/contents/enacted/welsh<br>Deddf Addysg 2002<br>www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/32/contents<br>Rheoliadau Addysg (Hysbysu am Ddyddiadau Tymhorau Ysgol)<br>(Cymru) 2014<br>www.legislation.gov.uk/wsi/2014/1249/contents/made/welsh<br>Rheoliadau Addysg (Ymgynghori ar Ddyddiadau Tymhorau Ysgol)<br>(Cymru) 2014<br>www.legislation.gov.uk/wsi/2014/1462/contents/made/welsh |

**Manylion cysylltu**

I gael rhagor o wybodaeth:

Y Gangen Llywodraethu Ysgolion
Is-adran Effeithiolrwydd Ysgolion
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: SMED2@cymru.gsi.gov.uk
Ffôn: 029 2082 6051

**Diogelu data**

**Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.**

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

# Cynnwys

**Rhagair y Gweinidog** **2**
**Crynodeb** **3**
Y prif faterion 3
Ble'r rydym ni nawr 3
Dyddiadau tymhorau wedi'u cysoni 3
Y cynnig 3
Cwestiynau’r ymgynghoriad 4
**Dadansoddiad o’r hysbysiadau o ddyddiadau tymhorau a dderbyniwyd** **5**
Hysbysiadau a dderbyniwyd ar gyfer ysgolion y mae dyddiadau eu tymhorau yn cael eu pennu gan awdurdodau lleol 5
Hysbysiadau a dderbyniwyd ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig (Mae’r ffigurau hyn wedi’u seilio ar hysbysiadau a dderbyniwyd am hanner dydd ar 1 Tachwedd 2016) 5
Cysoni dyddiadau tymhorau ysgolion ar gyfer 2018/19 rhwng consortia rhanbarthol 6
Casgliad 6
**Dyddiadau tymhorau sy’n cael eu cynnig ar gyfer 2018/19 a chyfarwyddyd drafft cysylltiedig** **8**
**Atodiad: Cyfarwyddyd drafft a dogfennau ategol** **9**

# Rhagair y Gweinidog

Mae'r newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 yn golygu fy mod yn gallu cyfarwyddo awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig ynglŷn â dyddiadau eu tymhorau os nad yw'r dyddiadau hynny wedi'u cysoni, neu os oes angen eu newid.

Mae'r newidiadau hyn yn ymateb i bryderon am yr anawsterau a'r costau uwch sy'n wynebu llawer o deuluoedd wrth geisio talu am gostau gofal plant ychwanegol o ganlyniad i amrywiad yn nyddiadau tymhorau ysgol, a gwyliau ysgol yn sgil hynny.

Defnyddiwyd y pwerau hyn am y tro cyntaf ar gyfer blwyddyn ysgol 2016/17.

Rydym wedi derbyn hysbysiadau bellach am ddyddiadau'r tymhorau y maent yn bwriadu eu pennu ar gyfer 2018/19 gan bob un o'r 22 awdurdod lleol ac ar ran cyrff llywodraethu 86 ysgol wirfoddol a gynorthwyir ac ysgol sefydledig. O'r hysbysiadau hyn mae'n amlwg bod awdurdodau lleol ac ysgolion wedi gwneud llawer o waith i geisio cysoni dyddiadau. Mae 17 o'r 22 awdurdod lleol wedi cysoni holl ddyddiadau'r tymhorau. Llwyddwyd i gysoni dyddiadau ym mhob awdurdod lleol ac eithrio gwyliau'r gwanwyn. O ganlyniad, er gwaethaf pob ymdrech, nid yw dyddiadau'r tymhorau wedi'u cysoni ac felly byddaf yn ystyried defnyddio fy mhwerau o dan y Ddeddf unwaith eto, i sicrhau cysondeb ar gyfer blwyddyn ysgol 2018/19.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi dyddiadau'r tymhorau rwy'n eu cynnig ar gyfer blwyddyn ysgol 2018/19. Rwyf felly'n gwahodd ac yn croesawu sylwadau gan yr holl randdeiliaid allweddol ar y dyddiadau arfaethedig a gyflwynir yn yr ymgynghoriad hwn a'r cyfarwyddyd drafft.



**Kirsty Williams AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**

# Crynodeb

## Y prif faterion

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich sylwadau ar ddyddiadau'r tymhorau sy'n cael eu cynnig gan Weinidogion Cymru ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru ar gyfer blwyddyn ysgol 2018/19, a'r cyfarwyddyd drafft cysylltiedig yn yr Atodiad.

## Ble'r rydym ni nawr

Erbyn hyn, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi coladu a dadansoddi'r dyddiadau a anfonwyd ar gyfer ysgolion awdurdodau lleol, ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig ledled Cymru, ac wedi sylwi nad yw ddyddiadau'r tymhorau wedi'u cysoni. O ganlyniad, mae Gweinidogion Cymru am ystyried defnyddio eu pwerau cyfarwyddo i sicrhau bod dyddiadau tymhorau yn cael eu cysoni ledled Cymru ar gyfer blwyddyn ysgol 2018/19.

## Dyddiadau tymhorau wedi'u cysoni

O dan adran 32A o Ddeddf Addysg 2002 ("Deddf 2002") mae gan awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig ("cyrff llywodraethu perthnasol") hawl i bennu dyddiadau tymhorau ar gyfer eu hysgolion. Erbyn hyn mae ganddynt ddyletswydd hefyd i gydweithio a chydgysylltu â'i gilydd i sicrhau bod y dyddiadau hynny'r un fath neu mor debyg ag y gallant fod (adran 32A o Ddeddf 2002). Os, er gwaethaf pob ymdrech, nad oes modd cytuno ar ddyddiadau'r tymhorau, mae adran 32A o Ddeddf 2002 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru 'gamu i mewn' a rhoi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu perthnasol ynglŷn â dyddiadau eu tymhorau, fel bod modd cysoni dyddiadau tymhorau ledled Cymru.

O dan ddarpariaethau adran 32A o Ddeddf 2002 mae'n rhaid i awdurdodau lleol hysbysu Gweinidogion Cymru am ddyddiadau'r tymhorau a bennwyd ar gyfer pob ysgol a gynhelir (gan gynnwys ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig) yn eu hardaloedd nhw, ac mae gan Weinidogion Cymru bŵer i wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer sut ac erbyn pryd y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu hysbysu am y dyddiadau hynny.

Mae Rheoliadau Addysg (Hysbysu am Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) 2014 ("y Rheoliadau Hysbysu") yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i hysbysu Gweinidogion Cymru am ddyddiadau'r tymhorau ar gyfer pob ysgol a gynhelir yn eu hardaloedd erbyn diwrnod gwaith olaf mis Awst (yn yr achos hwn, hysbysu dyddiadau tymhorau 2018/19 erbyn 31 Awst 2016).

## Y cynnig

Mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnal ymgynghoriad priodol. Mae Rheoliadau Addysg (Ymgynghori ar Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) 2014 ("Rheoliadau Ymgynghoriad") - sy'n cael eu gwneud o dan bwerau yn Neddf 2002, yn pennu gofynion ynglŷn â ffurf a hyd yr ymgynghoriad y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ei gynnal cyn defnyddio eu pwerau i bennu dyddiadau tymhorau.

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

Yng nghyswllt y cynigion hyn am ddyddiadau tymhorau, byddai Llywodraeth Cymru'n croesawu eich barn ar y cwestiynau canlynol. Defnyddiwch y templed sydd wedi'i ddarparu yn yr ymgynghoriad hwn i gofnodi eich atebion.

# Dadansoddiad o'r hysbysiadau o ddyddiadau tymhorau a dderbyniwyd

## Hysbysiadau a dderbyniwyd ar gyfer ysgolion y mae dyddiadau eu tymhorau yn cael eu pennu gan awdurdodau lleol

Anfonodd pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru hysbysiadau am ddyddiadau tymhorau 2018/19 ar gyfer yr ysgolion cymunedol, gwirfoddol a reolir, arbennig cymunedol a meithrin a gynhelir y mae ganddynt gyfrifoldeb i bennu dyddiadau tymhorau ar eu cyfer ("ysgolion arferol"). Fel yn yr ymarfer ar gyfer 2017/18 roedd dau grŵp gwahanol. Mae'r dyddiadau a bennwyd gan y ddau grŵp o awdurdodau lleol i'w gweld yn Atodiad B y cyfarwyddyd drafft ar dudalen xx.

Mae Grŵp awdurdodau lleol A yn cynnwys yr holl awdurdodau yn nhair o'r pedair ardal consortiwm. Mae Grŵp B yn cynnwys awdurdodau yng nghonsortia'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS) yn y De-ddwyrain. Mae Grŵp B felly'n cynnwys awdurdodau Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen tra bod Grŵp A yn cynnwys yr holl awdurdodau eraill.

Mae'r ddau grŵp wedi cysoni'r dyddiadau yn gyfan gwbl bron iawn. Yr unig wahaniaeth yw hanner tymor y gwanwyn 2019. Mae Grŵp A wedi dewis 25 Chwefror i 1 Mawrth, tra bod Grŵp B wedi dewis 18 Chwefror i 22 Chwefror. Mae'r holl ddyddiadau eraill yn union yr un fath.

## Hysbysiadau a dderbyniwyd ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig (Mae'r ffigurau hyn wedi'u seilio ar hysbysiadau a dderbyniwyd am hanner dydd ar 1 Tachwedd 2016)

Ym mis Hydref 2016, roedd 86 o hysbysiadau wedi'u llofnodi wedi'u dychwelyd (o gyfanswm o 165 o ysgolion) (52%).  Mae hyn yn cymharu â 107 o hysbysiadau a dderbyniwyd o'r cyfanswm o 168 o ysgolion yn y flwyddyn flaenorol, h.y. gostyngiad o 12%.

Roedd 83 o'r hysbysiadau wedi'u llofnodi yn cytuno â'u hawdurdodau lleol tra bod tair ysgol Gatholig wedi dewis gwyliau Pasg gwahanol a oedd yn golygu bod y disgyblion yn aros yn yr ysgol yn ystod yr Wythnos  Fawr. O'r 83 hysbysiad arall, roedd 72 yn cytuno â'u hawdurdodau yng Ngrŵp A a'r 11 arall yn cytuno â'u hawdurdodau yng Ngrŵp B.

O'r 72 a oedd yn cytuno yng Ngrŵp A, roedd 40 (56%) o'r rhain yn ysgolion Catholig. O'r 11 o hysbysiadau a dderbyniwyd gan Grŵp B, roedd 10 o'r rhain (91%) yn ysgolion Catholig.

O ran dyddiadau heb eu dilysu, roedd 15 o ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir neu ysgolion sefydledig eraill wedi darparu dyddiadau tymhorau. Fel arfer, nid oedd y rhain wedi'u llofnodi, nid oeddynt yn gyflawn neu nid oeddynt wedi'u cadarnhau gyda'r awdurdod lleol. Os ydym yn ychwanegu'r rhain at yr 86 hysbysiad wedi'u llofnodi byddai gennym gyfanswm o 101 o ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir neu ysgolion sefydledig sydd wedi darparu gwybodaeth am ddyddiadau eu tymhorau ar gyfer 2018/19 h.y. 61%.

Wrth gydgysylltu'r holl hysbysiadau a dderbyniwyd am ddyddiadau tymhorau mae Gweinidogion Cymru'n deall bod y dasg o gydgysylltu dyddiadau tymhorau a'u darparu i

Lywodraeth Cymru'n anoddach i rai awdurdodau lleol nag eraill, yn dibynnu ar nifer yr ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig yn eu hardal.

Dychwelodd y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol rai hysbysiadau gan ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir neu ysgolion sefydledig yn eu hardaloedd. Yn benodol, dychwelodd Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Gwynedd, Sir Benfro a Bro Morgannwg ddyddiadau wedi'u llofnodi ar gyfer eu holl ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig.

Anfonodd Ynys Môn, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, Rhondda Cynon Taf, Torfaen a Wrecsam rai hysbysiadau wedi'u llofnodi ar gyfer rhai o'u hysgolion neu hysbysiadau heb eu llofnodi neu anghyflawn neu negeseuon e-bost a oedd yn datgan bod yr ysgolion hyn yn fodlon cysoni dyddiadau â'u hawdurdod lleol er nad oeddynt wedi darparu hysbysiad wedi'i lofnodi.

Ni chafwyd unrhyw hysbysiadau wedi'u llofnodi ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir/ysgolion sefydledig yn ardaloedd Caerffili, Caerdydd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint neu Bowys.

## Cysoni dyddiadau tymhorau ysgolion ar gyfer 2018/19 rhwng consortia rhanbarthol

Cafwyd llawer o dystiolaeth o gonsortia'n gweithio ledled Cymru i gysoni dyddiadau tymhorau ar gyfer 2018/19. O'r pedwar consortiwm, dim ond de-ddwyrain Cymru ddewisodd ddyddiadau gwahanol a hynny ar gyfer hanner tymor y gwanwyn 2019 yn unig. Roedd yr holl ddyddiadau eraill yr un fath â dyddiadau'r tri chonsortiwm arall.

## Casgliad

Mae'n galonogol fod yna lawer mwy o dystiolaeth o gysoni yn sgil yr ymarfer hwn na'r ddau ymarfer blaenorol ar gyfer 2017/18 a 2016/17. Mae dyddiadau tymhorau wedi'u cysoni bron yn llwyr ar draws pob un o 22 awdurdod lleol Cymru. Yr unig wahaniaeth yw bod gwyliau hanner tymor y gwanwyn yn 2019 yn wahanol yn y pum awdurdod lleol yn ardal consortiwm y De-ddwyrain o gymharu ag awdurdodau lleol eraill Cymru.

Ystyriodd Gweinidogion Cymru yr holl hysbysiadau'n ofalus iawn ac maent wedi penderfynu cynnig y dylai pob ysgol a gynhelir yng Nghymru fabwysiadu dyddiadau'r tymhorau a bennwyd gan yr awdurdodau lleol yng Ngrŵp A am y rhesymau canlynol:

- Roedd mwyafrif yr awdurdodau lleol a bennodd ddyddiadau tymhorau yng Ngrŵp A – 17 o gymharu â dim ond 5 yng Ngrŵp B.

- Roedd mwyafrif yr ysgolion Catholig a anfonodd hysbysiadau (45 o 48 neu 94%) wedi cytuno i gysoni dyddiadau â'u hawdurdod lleol a fyddai'n golygu bod yr ysgol yn cau yn ystod yr Wythnos Fawr.

- Er bod diwrnod olaf y flwyddyn ysgol (dydd Llun 22 Gorffennaf 2019) yn debygol o gyd-daro â diwrnod cyntaf y Sioe Fawr, mae pob awdurdod lleol wedi cytuno ar y diwrnod olaf hwn yn cynnwys Powys, cartref y Sioe, gyda phob ysgol wirfoddol a gynorthwyir/ysgol sefydledig ond un a gyflwynodd hysbysiad yn cytuno hefyd. Awgrymodd un hysbysiad 23 Gorffennaf fel dyddiad gorffen a fyddai'n effeithio ar ddau ddiwrnod o'r Sioe Fawr.

- Yn achos awdurdodau lleol a ddewisodd ddechrau gwyliau hanner tymor gwanwyn 2019 wythnos ynghynt, dim ond newid bychan fyddai ei angen i gysoni'r dyddiad â dyddiad Grŵp A wrth fabwysiadu'r dyddiadau hyn.

- Mae Llywodraeth Cymru'n gwerthfawrogi ymdrechion awdurdodau lleol ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig i gydweithio i sicrhau cysondeb. Byddai cynnig dyddiadau sy'n  mynd yn groes i fwyafrif sylweddol yn tanseilio'r ymdrechion hyn. Wrth ystyried hyn a'r pwyntiau eraill a nodir uchod, mae Gweinidogion Cymru'n credu ei bod yn rhesymol cynnig y dyddiadau tymhorau wedi'u cysoni sy'n cyd-fynd â Grŵp A fel y nodir yn adran 4 isod.

## Dyddiadau tymhorau sy'n cael eu cynnig ar gyfer 2018/19 a chyfarwyddyd drafft cysylltiedig

Wrth ystyried y pwyntiau ym mharagraff uchod, mae Gweinidogion Cymru yn cynnig y dyddiadau tymhorau ysgol a nodir isod ar gyfer 2018/19:

| | |
|---|---|
| **Diwrnod cyntaf y flwyddyn ysgol** | **Dydd Llun, 3 Medi 2018** |
| **Gwyliau hanner tymor yr hydref** | **Dydd Llun, 29 Hydref 2018<br>i<br>Ddydd Gwener, 2 Tachwedd 2018** |
| **Gwyliau'r Nadolig** | **Dydd Llun, 24 Rhagfyr 2018<br>i<br>Friday 4th January 2019** |
| **Hanner tymor y gwanwyn** | **Dydd Llun, 25 Chwefror 2019<br>i<br>Ddydd Gwener, 1 Mawrth 2019** |
| **Gwyliau'r Pasg** | **Dydd Llun, 15 Ebrill 2019<br>i<br>Ddydd Gwener, 26 Ebrill 2019** |
| **Hanner tymor yr haf** | **Dydd Llun, 27 Mai 2019<br>i<br>Ddydd Gwener, 31 Mai 2019** |
| **Diwrnod olaf yn yr ysgol** | **Dydd Llun 22 Gorffennaf 2019** |

Mae'r dyddiadau hyn wedi'u hadlewyrchu yn y cyfarwyddyd drafft sydd ynghlwm, y mae Gweinidogion Cymru'n bwriadu ei gyhoeddi, yn amodol ar ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, i sicrhau bod dyddiadau tymhorau wedi'u cysoni ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru ar gyfer blwyddyn ysgol 2018/19.

# Atodiad: Cyfarwyddyd drafft a dogfennau ategol

**MEMORANDWM ESBONIADOL A CHYFARWYDDYD I BOB AWDURDOD LLEOL YNG NGHYMRU A PHOB CORFF LLYWODRAETHU YSGOLION GWIRFODDOL A GYNORTHWYIR AC YSGOLION SEFYDLEDIG YNG NGHYMRU O DAN ADRAN 32B O DDEDDF ADDYSG 2002**

**MEMORANDWM ESBONIADOL**

### Cyflwyniad a Chefndir

1) Mae gan Weinidogion Cymru bwerau cyfarwyddo o dan adran 32B(1) o Ddeddf Addysg 2002 ("Deddf 2002").

2) Diben y ddogfen hon yw darparu datganiad cyhoeddus a thryloyw ar benderfyniad Gweinidogion Cymru i gyhoeddi cyfarwyddyd ac amlinellu sut y bydd Gweinidogion Cymru yn pennu dyddiadau tymhorau ysgol ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru. Bwriad arall y ddogfen yw nodi diben ac effaith y cyfarwyddyd ar gyfer dinasyddion, aelodau, swyddogion a phartneriaid yr awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig ("cyrff llywodraethu perthnasol").

3) Mae awdurdodau lleol yn cadw'r hawl i bennu dyddiadau tymhorau ar gyfer ysgolion cymunedol, ysgolion gwirfoddol a reolir, ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion meithrin a gynhelir. Yn ogystal, mae cyrff llywodraethu perthnasol yn cadw'r hawl i bennu dyddiadau tymhorau ar gyfer eu hysgolion. Mae gan awdurdod lleol ddyletswydd i gydweithredu a chysylltu â phob corff llywodraethu perthnasol yn ei ardal ac â phob awdurdod lleol arall yng Nghymru wrth bennu dyddiadau tymhorau fel bod y dyddiadau hynny'r un fath neu eu bod mor debyg ag y gallant fod. Yn yr un modd, mae gan gorff llywodraethu perthnasol ddyletswydd i gydweithredu a chysylltu â phob corff llywodraethu perthnasol arall yn ardal yr awdurdod lleol ac â'r awdurdod lleol ar gyfer yr ardal y mae'r ysgol ynddi wrth bennu dyddiadau tymhorau fel bod y dyddiadau hynny'r un fath neu eu bod mor debyg ag y gallant fod.

4) Mae'r term "ysgol a gynhelir" yn cael ei ddiffinio yn adran 32A(9) o Ddeddf 2002 ac mae'n cynnwys ysgol yng Nghymru sy'n ysgol gymunedol, ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol (gan gynnwys ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir), ysgol arbennig gymunedol neu ysgol feithrin a gynhelir. Mae'r adran hon yn diffinio "dyddiadau tymhorau" fel dyddiadau dechrau a gorffen tymhorau a gwyliau ysgol.

5) Os, er gwaethaf pob ymdrech, nad oes modd cytuno ar ddyddiadau tymhorau, mae adran 32B(1) o Ddeddf 2002 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu perthnasol ynglŷn â dyddiadau eu tymhorau.

6) Mae adran 32A(5) o Ddeddf 2002 yn darparu bod rhaid i awdurdodau lleol hysbysu Gweinidogion Cymru am ddyddiadau'r tymhorau y maent wedi'u pennu ar gyfer pob ysgol a gynhelir yn eu hardaloedd perthnasol. Mae'r rheoliadau a wnaed yn unol ag adran 32A(6) o Ddeddf 2002 yn pennu ffurf yr hysbysiad hwnnw. Mae Rheoliadau Addysg (Hysbysu am Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) 2014 ("y Rheoliadau Hysbysu") yn nodi bod angen darparu'r dyddiadau tymhorau ar gyfer 2018/19 erbyn y diwrnod gwaith olaf ym mis Awst (yn yr achos hwn, 31 Awst 2016).

7) Roedd y Rheoliadau Hysbysu yn darparu hefyd bod modd cwblhau ac anfon hysbysiadau at Weinidogion Cymru yn electronig. Gan fod angen i gadeirydd neu is-gadeirydd corff llywodraethu perthnasol lofnodi'r hysbysiad ar ran yr ysgol, yn ogystal â chyfarwyddwr addysg yr awdurdod lleol perthnasol, mae'r Rheoliadau'n darparu hefyd ar gyfer defnyddio hysbysiadau rhannol sy'n cynnwys dyddiadau tymhorau ar gyfer un ysgol neu fwy.

8) O ganlyniad i'r ymarfer cysoni dyddiadau tymhorau yn 2014/15, bydd dyddiadau tymhorau wedi'u cysoni yng Nghymru am y tro cyntaf ar gyfer blwyddyn ysgol 2016/17. Dyma ddolen i Ddatganiad y Gweinidog ar hyn:

   http://llyw.cymru/about/cabinet/cabinetstatements/previous-administration/2015/schoolterm1617/?skip=1&lang=cy

9) Ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at bob awdurdod lleol ar 4 Gorffennaf 2016 yn gofyn iddynt gydweithio ag awdurdodau lleol eraill a'r ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig yn eu hardal i bennu dyddiadau tymhorau ac i roi gwybod i Weinidogion Cymru beth yw'r dyddiadau tymhorau arfaethedig erbyn 31 Awst 2016.

10) Mae dadansoddiad o'r hysbysiadau a dderbyniodd Gweinidogion Cymru yn dangos, er gwaethaf pob ymdrech, nad yw dyddiadau'r tymhorau yr un fath (neu mor debyg ag y gallant fod) ar gyfer blwyddyn ysgol 2018/19. Felly, er mwyn sicrhau bod dyddiadau'r tymhorau yr un fath ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru fel nad yw teuluoedd yn wynebu problemau wrth ddod o hyd i ofal plant ychwanegol, a thalu amdano, pan nad yw dyddiadau tymhorau wedi'u cysoni, mae Gweinidogion Cymru yn cynnig defnyddio eu pwerau cyfarwyddo.

**Dadansoddiad o'r hysbysiadau am ddyddiadau tymhorau am hanner dydd ar 1 Tachwedd 2016**

*Hysbysiadau gan awdurdodau lleol yng Nghymru:*

11) Anfonodd pob awdurdod lleol yng Nghymru hysbysiadau am ddyddiadau tymhorau 2018/19 ar gyfer yr ysgolion cymunedol, gwirfoddol a reolir, arbennig cymunedol a meithrin a gynhelir y mae ganddynt gyfrifoldeb i bennu dyddiadau tymhorau ar eu cyfer ("ysgolion arferol"). Fel yn yr ymarfer ar gyfer 2017/18 roedd dau grŵp gwahanol. Mae'r dyddiadau a bennwyd gan y ddau grŵp o awdurdodau lleol i'w gweld yn Atodiad B y cyfarwyddyd drafft ar dudalen 18.

12) Mae Grŵp awdurdodau lleol A yn cynnwys yr holl awdurdodau yn nhair o'r pedair ardal consortiwm. Mae Grŵp B yn cynnwys awdurdodau yng nghonsortia'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS) yn y De-ddwyrain. Mae Grŵp B felly'n cynnwys awdurdodau Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen tra bod Grŵp A yn cynnwys yr holl awdurdodau eraill.

13) Mae'r ddau grŵp wedi cysoni'r dyddiadau yn gyfan gwbl bron iawn. Yr unig wahaniaeth yw hanner tymor y gwanwyn 2019. Mae Grŵp A wedi dewis 25 Chwefror i 1 Mawrth, tra bod Grŵp B wedi dewis 18 Chwefror i 22 Chwefror.

*Hysbysiadau gan gyrff llywodraethu perthnasol:*

14) Dychwelwyd 86 o hysbysiadau wedi'u llofnodi (o gyfanswm o 165 o ysgolion) (52%). Mae hyn yn cymharu â 107 o hysbysiadau a dderbyniwyd o'r cyfanswm o 168 o ysgolion yn y flwyddyn flaenorol, h.y. gostyngiad o 11%.

15) Roedd 83 o'r hysbysiadau wedi'u llofnodi yn cytuno â'u hawdurdodau lleol tra bod tair ysgol Gatholig wedi dewis gwyliau Pasg gwahanol a oedd yn golygu bod y disgyblion yn aros yn yr ysgol yn ystod yr Wythnos Fawr. O'r 83 o hysbysiadau, roedd 72 yn cytuno â'u hawdurdodau yng Ngrŵp A a'r 11 arall yn cytuno â'u hawdurdodau yng Ngrŵp B..

16) O'r 72 a oedd yn cytuno yng Ngrŵp A, roedd 40 (56%) o'r rhain yn ysgolion Catholig. O'r 11 o hysbysiadau a dderbyniwyd gan Grŵp B, roedd 10 o'r rhain (91%) yn ysgolion Catholig.

17) O ran dyddiadau heb eu dilysu, roedd 15 o ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir neu ysgolion sefydledig eraill wedi darparu dyddiadau tymhorau. Fel arfer, nid oedd y rhain wedi'u llofnodi, nid oeddynt yn gyflawn neu nid oeddynt wedi'u cadarnhau gyda'r awdurdod lleol.  Os ydym yn ychwanegu'r rhain at yr 86 hysbysiad wedi'u llofnodi byddai gennym gyfanswm o 101 o ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir neu ysgolion sefydledig sydd wedi darparu gwybodaeth am ddyddiadau eu tymhorau ar gyfer 2018/19 h.y. 61%.

*Cysoni rhwng consortia*

18) Cafwyd llawer o dystiolaeth o gonsortia'n gweithio ledled Cymru i gysoni dyddiadau tymhorau ar gyfer 2018/19.  O'r pedwar consortiwm, dim ond de-ddwyrain Cymru ddewisodd ddyddiadau gwahanol a hynny ar gyfer hanner tymor y gwanwyn 2019 yn unig. Roedd yr holl ddyddiadau eraill yr un fath â dyddiadau'r tri chonsortiwm arall.

**Casgliad**

19) Mae'n galonogol fod yna lawer mwy o dystiolaeth o gysoni yn sgil yr ymarfer hwn na'r ddau ymarfer blaenorol ar gyfer 2017/18 a 2016/17.  Mae pob awdurdod lleol wedi cysoni eu dyddiadau ac eithrio'r rhai sydd yng nghonsortiwm de-ddwyrain Cymru sydd â'r un dyddiadau heblaw am hanner tymor y gwanwyn yn 2019.

20) Ystyriodd Gweinidogion Cymru yr holl hysbysiadau'n ofalus iawn ac maent wedi penderfynu cynnig y dylai pob ysgol a gynhelir yng Nghymru fabwysiadu dyddiadau'r tymhorau a bennwyd gan yr awdurdodau lleol yng Ngrŵp A am y rhesymau canlynol:

- Roedd mwyafrif yr awdurdodau lleol a bennodd ddyddiadau tymhorau yng Ngrŵp A – 17 o gymharu â dim ond 5 yng Ngrŵp B.

- Roedd mwyafrif yr ysgolion Catholig a anfonodd hysbysiadau (45 o 48 neu 94%) wedi cytuno i gysoni dyddiadau â'u hawdurdod lleol a fyddai'n golygu bod yr ysgol yn cau yn ystod yr Wythnos Fawr.

- Er bod diwrnod olaf y flwyddyn ysgol (dydd Llun 22 Gorffennaf 2019) yn debygol o gyd-daro â diwrnod cyntaf y Sioe Fawr, mae pob awdurdod lleol yn cytuno ar y diwrnod olaf hwn yn cynnwys Powys, cartref y Sioe, gyda phob ysgol wirfoddol a gynorthwyir/ysgol sefydledig ond un a gyflwynodd hysbysiad yn cytuno hefyd.

Awgrymodd un hysbysiad 23 Gorffennaf fel dyddiad gorffen a fyddai'n effeithio ar ddau ddiwrnod o'r Sioe Fawr.

- Mae yna gysondeb llwyr bron iawn ar draws holl awdurdodau lleol Cymru. Mae pum awdurdod lleol wedi dewis dechrau gwyliau hanner tymor gwanwyn 2019 wythnos ynghynt, fodd bynnag drwy gysoni â Grŵp A dim ond newid bychan fyddai ei angen i'r dyddiadau a gynigiwyd ganddynt.

- Mae Llywodraeth Cymru'n gwerthfawrogi ymdrechion awdurdodau lleol ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig i gydweithio i sicrhau cysondeb. Byddai cynnig dyddiadau sy'n mynd yn groes i fwyafrif sylweddol yn tanseilio'r ymdrechion hyn. Wrth ystyried hyn a'r pwyntiau eraill a nodir uchod, mae Gweinidogion Cymru'n credu ei bod yn rhesymol cynnig y dyddiadau tymhorau wedi'u cysoni sy'n cyd-fynd â Grŵp A fel y nodir yn adran 4 isod.

**Ymgynghoriad ar y dyddiadau tymhorau sy'n cael eu cynnig ar gyfer 2018/19 a'r Cyfarwyddyd**

21) Fodd bynnag, cyn y gallant ddefnyddio eu pwerau cyfarwyddo, mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnal ymgynghoriad priodol yn unol â Rheoliadau Addysg (Ymgynghori ar Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) 2014. O ganlyniad, cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos ar ddyddiadau'r tymhorau roedd Gweinidogion Cymru'n eu cynnig o x Tachwedd 2016 hyd 30 Chwefror 2017. Gofynnodd yr ymgynghoriad a oedd yr ymgynghoreion yn cytuno â'n cynigion ar gyfer dyddiadau tymhorau blwyddyn ysgol 2018/19 a'r cyfarwyddyd drafft arfaethedig. Y dyddiadau a gynigiwyd ar gyfer blwyddyn ysgol 2018/19 yr ymgynghorodd Gweinidogion Cymru yn eu cylch oedd:

| | |
|---|---|
| Diwrnod cyntaf y flwyddyn ysgol | Dydd Llun, 3 Medi 2018 |
| Gwyliau hanner tymor yr hydref | Dydd Llun, 29 Hydref 2018 i Ddydd Gwener, 2 Tachwedd 2018 |
| Gwyliau'r Nadolig | Dydd Llun, 24 Rhagfyr 2018 i Ddydd Gwener, 4 Ionawr 2019 |
| Hanner tymor y gwanwyn | Dydd Llun, 25 Chwefror 2019 i Ddydd Gwener, 1 Mawrth 2019 |
| Gwyliau'r Pasg | Dydd Llun, 15 Ebrill 2019 i Ddydd Gwener, 26 Ebrill 2019 |
| Hanner tymor yr haf | Dydd Llun, 27 Mai 2019 i Ddydd Gwener, 31 Mai 2019 |
| Diwrnod olaf yn yr ysgol | Dydd Llun 22 Gorffennaf 2019 |

**Crynodeb o ymatebion yr ymgynghoriad**

**<I ddilyn>**

**Dull gweithredu**

22) Wrth benderfynu a ddylid ymyrryd, a sut i wneud hynny, mae Gweinidogion Cymru wedi ystyried yr egwyddorion canlynol:

a. Mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod bod y cyfarwyddyd hwn yn gam difrifol, ac nid ar chwarae bach y maent wedi penderfynu ei gyhoeddi. Mae Gweinidogion Cymru yn fodlon ei bod yn rhesymol pennu dyddiadau tymhorau er mwyn sicrhau eu bod yr un fath ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru. Mae Gweinidogion Cymru wedi caniatáu digon o amser i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu perthnasol gytuno ar ddyddiadau rhwng ei gilydd. Maent wedi cynnal ymgynghoriad priodol o 12 wythnos hefyd i gasglu barn ar y dyddiadau arfaethedig a'r cyfarwyddyd. Maent yn fodlon, felly, bod modd cyfiawnhau'r cyfarwyddyd hwn.

b. Dylai ymyrraeth fod yn gymesur. Mae dyddiadau'r tymhorau a bennwyd gan Weinidogion Cymru yn y cyfarwyddyd yn berthnasol i flwyddyn ysgol 2018/2019. Mae hyn yn rhoi cyfle digonol i bawb sy'n cael eu heffeithio gan y dyddiadau hynny gynllunio'n unol â hynny. Nid yw Gweinidogion Cymru wedi pennu dyddiadau tymhorau yn y cyfarwyddyd hwn ar gyfer unrhyw flynyddoedd ysgol eraill, a bydd disgwyl o hyd i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu geisio cytuno ar ddyddiadau tymhorau sydd yr un fath (neu mor debyg ag y gallant fod). Mae dyddiadau'r tymhorau a bennwyd gan Weinidogion Cymru yn ystyried rhai agweddau ar ddyddiadau'r tymhorau a bennwyd gan bob prif ranbarth yng Nghymru (Gogledd, De, Canolbarth a Gorllewin Cymru). Maent hefyd yn ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad 12 wythnos ar y dyddiadau arfaethedig.

**Adolygiad Parhaus o'r Cyfarwyddyd**

23) Gall Gweinidogion Cymru ddirymu neu ddiwygio'r cyfarwyddyd unrhyw amser, a bydd Gweinidogion Cymru'n adolygu effeithiolrwydd y cyfarwyddyd o dro i dro.

**Gorfodi'r Cyfarwyddyd**

24) Effaith y cyfarwyddyd yw ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu perthnasol bennu dyddiadau'r tymhorau ar gyfer pob ysgol yng Nghymru yn unol â'r cyfarwyddyd.

Llofnodwyd gan …………………………………………………..

Kirsty Williams AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad: **(nodwch y dyddiad)** 2017

**CYFARWYDDYD**

1) Mae Gweinidogion Cymru wedi ystyried yr holl wybodaeth yn y Memorandwm Esboniadol ac maent yn fodlon nad yw dyddiadau'r tymhorau a bennwyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir neu ysgolion sefydledig yr un fath (neu mor debyg ag y gallant fod). Maent hefyd wedi cynnal ymgynghoriad priodol ar ddyddiadau'r tymhorau a gynigir gan Weinidogion Cymru ac wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

2) Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn rhesymol y dylai dyddiadau'r tymhorau fod yr un fath. Yn unol â hynny, mae Gweinidogion Cymru'n cyfarwyddo'r awdurdodau lleol yng Nghymru a'r cyrff llywodraethu perthnasol yng Nghymru i bennu dyddiadau'r tymhorau ar gyfer blwyddyn ysgol 2018/19 yn unol â'r Atodlen i'r cyfarwyddyd hwn.

3) Gwneir y cyfarwyddyd hwn heb ragfarnu unrhyw gyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru yn y dyfodol.

4) Mae'r cyfarwyddyd hwn yn dod i rym am 9am drannoeth ei lofnodi.

Llofnodwyd gan………………………………………………..

Kirsty Williams AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad: **(nodwch y dyddiad)** 2017

**ATODLEN**

Y TYMHORAU A BENNWYD GAN WEINIDOGION CYMRU AR GYFER BLWYDDYN YSGOL 2018/2019

| | |
|---|---|
| Diwrnod cyntaf y flwyddyn ysgol | Dydd Llun, 3 Medi 2018 |
| Gwyliau hanner tymor yr hydref | Dydd Llun, 29 Hydref 2018 i Ddydd Gwener, 2 Tachwedd 2018 |
| Gwyliau'r Nadolig | Dydd Llun, 24 Rhagfyr 2018 i Ddydd Gwener, 4 Ionawr 2019 |
| Hanner tymor y gwanwyn | Dydd Llun, 25 Chwefror 2019 i Ddydd Gwener, 1 Mawrth 2019 |
| Gwyliau'r Pasg | Dydd Llun, 15 Ebrill 2019 i Ddydd Gwener, 26 Ebrill 2019 |
| Hanner tymor yr haf | Dydd Llun, 27 Mai 2019 i Ddydd Gwener, 31 Mai 2019 |
| Diwrnod olaf yn yr ysgol | Dydd Llun 22 Gorffennaf 2019 |

ATODIAD A

HYSBYSIADAU AM DDYDDIADAU TYMHORAU
Y CYTUNWYD ARNYNT

| **Grwpiau Awdurdodau Lleol** | |
|---|---|
| **Awdurdod Lleol Grŵp A** | **Awdurdod Lleol Grŵp B** |
| Ynys Môn | Blaenau Gwent |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Caerffili |
| Caerdydd | Sir Fynwy |
| Sir Gaerfyrddin | Casnewydd |
| Ceredigion | Torfaen |
| Conwy | |
| Sir Ddinbych | |
| Sir y Fflint | |
| Gwynedd | |
| Merthyr Tudful | |
| Castell-nedd Port Talbot | |
| Powys | |
| Sir Benfro | |
| Rhondda Cynon Taf | |
| Abertawe | |
| Bro Morgannwg | |
| Wrecsam | |
| | |

ATODIAD B

GRWPIAU AWDURDODAU LLEOL

| **Dyddiadau tymhorau/gwyliau ysgol awdurdodau lleol ar gyfer 2018/19** | | |
|---|---|---|
| **Dyddiadau tymhorau/gwyliau ysgol** | **Awdurdod lleol grŵp A** | **Awdurdod lleol grŵp B** |
| *Diwrnod cyntaf blwyddyn ysgol 2018/19* | Dydd Llun 3 Medi 2018 | Dydd Llun 3 Medi 2018 |
| *Gwyliau hanner tymor yr hydref (h.y. dyddiadau pan nad yw disgyblion yn yr ysgol)* | Dydd Llun 29 Hydref 2018 i Ddydd Gwener 2 Tachwedd 2018 | Dydd Llun 29 Hydref 2018 i Ddydd Gwener 2 Tachwedd 2018 |
| *Gwyliau'r Nadolig (h.y. dyddiadau pan nad yw disgyblion yn yr ysgol)* | Dydd Llun 24 Rhagfyr 2018 i Ddydd Gwener 4 Ionawr 2019 | Dydd Llun 24 Rhagfyr 2018 i Ddydd Gwener 4 Ionawr 2019 |
| *Gwyliau hanner tymor y gwanwyn (h.y. dyddiadau pan nad yw disgyblion yn yr ysgol)* | Dydd Llun 25 Chwefror 2019 i Ddydd Gwener 1 Mawrth 2019 | Dydd Llun 18 Chwefror 2019 i Ddydd Gwener 22 Chwefror 2019 |
| *Gwyliau'r Pasg (h.y. dyddiadau pan nad yw disgyblion yn yr ysgol)* | Dydd Llun 15 Ebrill 2019 i Ddydd Gwener 26 Ebrill 2019 | Dydd Llun 15 Ebrill 2019 i Ddydd Gwener 26 Ebrill 2019 |
| *Hanner tymor yr haf (h.y. dyddiadau pan nad yw disgyblion yn yr ysgol)* | Dydd Llun 27 Mai 2019 i Ddydd Gwener 31 Mai 2019 | Dydd Llun 27 Mai 2019 i Ddydd Gwener 31 Mai 2019 |
| *Diwrnod olaf blwyddyn ysgol 2018/19* | Dydd Llun 22 Gorffennaf 2019 | Dydd Llun 22 Gorffennaf 2019 |